# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**2/6/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Llinos Edwards (Cadeirydd), Dewi Jones, Heledd Jones, Huw Roberts, Euros Roberts ac Arwel Ll Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cynghorydd Sir) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3345 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Llinos Edwards. Fe gyfeiriodd at lwyddiant yr ysgol, yr Adran a'r Aelwyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ynys Môn, ac fe ddymunodd yn dda i Glwb Ffermwyr Ieuainc Glannau Tegid yn y Rali CFFI yn Nolfach ar Fehefin 6ed.

**3346 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Lis Puw, Beryl Griffiths, Alwyn Jones a Rhodri Jones.

**3347 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd ddatganiad o fuddiant.

**3348 Cofnodion Cyfarfod Mai 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3349 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Adroddwyd fod y Cyng Alwyn Jones a'r Clerc wedi cyfarfod y pensaer Rhys Davies ar y safle ar Fai 19eg i drafod y cynllun, a bod Rhys wedi cytuno i ddarparu cynllun o'r safle i ddangos terfynau etc, a'i fod am ymchwilio i sefyllfa'r polion BT a thrydan. Cytunwyd fod angen sgwrs hefo'r cymdogion i egluro'r bwriad, ac fe gytunwyd hefyd fod tystiolaeth ddigonol fod y cyngor wedi bod yn gofalu am y safle ers nifer o flynyddoedd.
ii. Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned: Cafwyd trafodaeth bellach am y gronfa, ac fe gytunwyd i fwrw 'mlaen hefo cais am offer ieuenctid i Weithdy'r Saer, ac i ychwanegu peiriant golchi llestri i'r neuadd bentref pe byddai'r gyllideb yn ddigonol.
iii. Fflatiau Maes y Pandy: Adroddwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu hefo'r Heddlu ac ADRA ar Fehefin 10fed, ac fe baratowyd rhestr o bwyntiau i'w trafod yn y cyfarfod.
iv. Hyfforddiant Lleol Un Llais Cymru: Cytunwyd i drefnu'r sesiwn hyfforddiant ym mis Medi / Hydref, ac i ddewis modiwl yn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.
v. Gefeillio gyda'r Gaiman: Rhoddwyd adroddiad o noson gymdeithasol gyda chriw o ieuenctid y Gaiman yn y Neuadd Bentref nos Sadwrn Mai 30ain, pryd y cafwyd cyfuniad o ganu a dawnsio fel rhan o drefniant gefeillio'r ddwy ardal. Nodwyd fod casgliad wedi ei wneud ar ddiwedd y noson, a'i drosglwyddo i'r arweinyddion er mwyn cyfrannu at gostau teithio'r criw.

**3350 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd:

- Fod twmpathau arafu traffig y pentref yn cael eu trwsio, ac nad oedd bwriad i'w gwaredu.

- Fod y polion du a gwyn ar ffordd Cwm Cynllwyd yn cael eu hadnewyddu.
- Fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i fater y graean ger Pont Lliw.
- Fod Cyngor Gwynedd yn rhoi ystyriaeth i fabwysiadau'r ffordd rhwng Glynllifon a Cheniarth.
- Fod polion wedi eu gosod ger y cwlfert yn Ffridd Helyg.

**3351 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. **Pwyllgor Datblygu**:
a) Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn - Adroddwyd fod y gwaith o osod polion teithiau Peniel a Phenantlliw bron a'i gwblhau.
b) Prosiect Enwau Lleoedd: Cytunwyd i gomisiynu Iola Edwards i gwblhau murlun enwau lleoedd i'w osod ar wal cyntedd y Neuadd Bentref.
2. **Pwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod giât Porth y Fynwent Newydd a'r lloches bws ger Ysgol O M Edwards angen sylw, fod angen tacluso'r ardal o gwmpas Pwmp y Llan, a bod llechen ar y Gilfach Goffa angen ei hadnewyddu..
3. **Pwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddodd y cadeirydd ei bod wedi trafod lleoliadau ar gyfer gosod blodau ar y pentref, hyn o bosibl yn cynnwys y Gilach Goffa, safle ger y toiledau cyhoeddus, ger arwyddion 'Llanuwchllyn' a ger lloches bws Tŷ'n Ddôl.

**3352 Materion Ariannol:**
Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Anfoneb cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb nwyddau glanhau y toiledau.
- Anfoneb cynnal gwefan y byrddau gwybodaeth.
- Anfoneb torri gwair mynwentydd.
- Anfoneb gwasanaethau dwr y toiledau cyhoeddus.
- Anfoneb am baentio meinciau a bondo Porth y Fynwent.
- Anfoneb tocynnau gweithgaredd gefeillio (Neuadd Rhydymain).
- Anfoneb atgyweirio toiledau cyhoeddus.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mai yn £85.21.
Nodwyd derbyn ad-daliad TAW y cyngor am 2025/2026.

Cyflwynwyd cyfrifon terfynol am y flwyddyn 2025/2026, ac fe gymeradwywyd y cyfrifon. Fe gyflwynwyd Adroddiad Archwilwyr Mewnol y cyngor, sef Cyngor Gwynedd. Nodwyd fod yr adroddiad yn argymell y dylid sefydlu trefn o awdurdodi deuol ar gyfer taliadau ar lein, ac fe gytunwyd i wneud ymholiadau ar sut i weithredu hyn. Cytunwyd i ychwanegu'r mater at asesiad risg ariannol y cyngor. Awdurdodwyd y cadeirydd a'r clerc i arwyddo Ffurflen Flynyddol y cyngor, ac i anfon y wybodaeth ymlaen i Archwilio Cymru.

**3353 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd na fu cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r fenter ers y cyfarfod diwethaf o'r cyngor.

3354 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni wedi llwyddo gyda chais loteri i ariannu gwaith marchnata cymunedol, a bod trefniadau ar y gweill i benodi Swyddog Marchnata i'r ardal.

3355 **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

3356 **Gohebiaeth:**

i) Derbyniwyd Pecynnau Gwybodaeth Bioamrywiaeth gan Un Llais Cymru.

3357 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd:

i) Fod angen ystyried trefniadau casgliadau sbwriel ac ailgylchu yn y pentref.
ii) Fod dwr yn dod i'r ffordd ger Bryn Melyn / Coed Ladur, ac hefyd ger Cwr yr Aran.

3358 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Nos Fawrth 7/7/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.